



Ysgol Pentreuchaf

27. Polisi Cofrestru a Phresenoldeb

Nod

Sicrhau presenoldeb rheolaidd plant yn yr ysgol. Cael cefnogaeth y rhieni/gwarcheidwaid a sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb eu plant a'r system sydd mewn bodolaeth ar hyn o bryd.

Amcanion

Sicrhau bod cofnod cywir o absenoldebau wedi eu hawdurdodi a heb eu hawdurdodi yn cael eu cadw, a manylion o bob absenoldeb yn cael ei dderbyn gan yr ysgol. Llenwi'r gofrestr ddwywaith y dydd.

Canllawiau

1. Egluro trefn yr ysgol i'r rhieni/gwarcheidwaid yn flynyddol yn y Prosbectws.
2. Mae'n bwysig bod pob plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae'r ysgol yn cychwyn am 9.00 a.m. ond caniateir i'r plant gyrraedd unrhyw amser ar ôl 8.50 a.m. (onibai eu bod yn mynychu'r Clwb Brechwast rhwng 8.20 a.m. a 8.50 a.m.) Bydd y gofrestr yn cael ei gau am 9.10 a.m. Bydd plentyn sydd yn cyrraedd ar ôl hyn yn cael ei gyfrif fel 'absenoldeb heb ei awdurdodi'. Gwneir y gofrestr yn y prynhawn am 1.00 p.m.
3. I warchod diogelwch pob plentyn yn yr ysgol ac i sicrhau ein bod yn cael gwybodaeth gyfredol, gofynnir i rieni ffonio'r ysgol neu alw i mewn cyn 9.30 a.m. i egluro unrhyw absenoldeb. Bydd pob rhiant wedi'i hysbysu o hyn. Os bydd plentyn yn absennol am 9.30 a.m. a ninnau heb glywed gan ei rieni, byddwn yn ffonio'r cartref am eglurhâd.
4. Yn fyr, absenoldebau awdurdodedig yw
 - i) Salwch.
 - ii) Ymweliadau addysgol.
 - iii) Marwolaeth aelod o deulu agos.
 - iv) Apwyntiadau brys ~ meddygol neu ddeintyddol.
 - v) Argyfwng arbennig ~ eira, diffyg trydan, salwch difrifol yn y teulu a.y.y.b.
 - vi) Gwyliau teuluol ~ uchafswm o ddeg diwrnod mewn blwyddyn ysgol.
5. Rhaid i bob athro/athrawes lenwi'r Gofrestr Ddyddiol yn ôl canllawiau'r Awdurdod – gall y drefn amrywio yn ôl datblygiadau ym maes Technoleg Gwybodaeth.
6. Dylai athrawon hysbysu'r Pennaeth o absenoldebau cyson er mwyn trafod gyda'r rhieni / gwarcheidwaid ac yna gyda'r Swyddog Lles os bydd angen.
7. Pe cyfyd problemau, dylid cysylltu gyda'r rhieni yn y lle cyntaf, yna gyda'r Swyddog Lles Addysg.
8. Mae angen cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb, absenoldebau gydag awdurdod ac absenoldebau anawdurdodedig yn Y Prosbectws ac yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni.
9. Mae angen pennu targedau ar gyfer gwella cyfraddau presenoldeb.
10. Rhaid cadw cofrestrau am dair blynedd ar ôl y dyddiad pan ddefnyddiwyd hwy ddiwethaf.
11. Bydd y cymhorthydd gweinyddol yn trosglwyddo cofnodion presenoldeb i'r cyfrifiadur rhaglen pwrpasol yn wythnosol.

Casgliad

Rhaid cofio mai sicrhau diogelwch pob plentyn ac arbed triwantiaith yw prif bwrpas yr uchod (gan gynnwys 'dyddiau siopa', 'helpu gartref' a.y.y.b.). Wrth osod targedau, rhaid cofio bod plant ifanc yn cael llawer o salwch, a bydd y cyfrannau yn isel os bydd afiechyd heintus yn yr ardal. Rhaid sicrhau ein bod yn diwallu gofynion y Llywodraeth trwy gofnodi pob absenoldeb yn ofalus a hysbysu rhieni/gwarcheidwaid o'u cyfrifoldebau.

Adolygir Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____